# Uchafbwyntiau Gwnaethpwyd yng Nghymru: 2024-25



Delwedd: Mr Burton © Severn Screen / Icon Film Distribution. All Rights Reserved.

**Mae eleni wedi bod yn flwyddyn fawr i ffilmiau sydd â chysylltiadau Cymreig, gydag 20 o ffilmiau allweddol wedi'u rhyddhau gyda chefnogaeth gan y prosiect Gwnaethpwyd yng Nghymru (GyNg). O Oed Yr Addewid i On Becoming a Guinea Fowl, fe wnaethom ddatblygu asedau a oedd yn cynnwys cyfweliadau, erthyglau, datganiadau i'r wasg a phecynnau cefnogi, i gyd er mwyn dathlu ffilmiau Cymreig ar y sgrin fawr.**

**Gadewch i ni edrych yn ôl ar 2024/25:**

FILM HUB WALES CANOLFAN FFILM CYMRU · BFI FAN BFI FILM AUDIENCE NETWORK · THE NATIONAL LOTTERY · CHAPTER · Cymru Greadigol Creative Wales

# Fe wnaethom gefnogi

- **81 ffilm newydd** (cyfanswm o 117 ffilm)
- **62 new o wneuthurwyr ffilmiau newydd** (cyfanswm o 110 o wneuthurwyr ffilmiau)
- **36 sinema newydd** (cyfanswm o 73 sinema)
- **15 o gwmnïau cynhyrchu newydd** (cyfanswm o 30)
- **11 o ddosbarthwyr newydd** (cyfanswm o 29)
- **28 o weithwyr llawrydd** — Fe wnaethom gomisiynu 51 o asedau
- **Fe roddwyd 1010 o ffilmiau ar ein catalog ar-lein**



Delwedd: Comrade Tambo's London Recruits © Barefoot Rascals. All Rights Reserved.

## Sbotolau: Comrade Tambo's London Recruits

Wedi'i gosod ar anterth apartheid, ar ddiwedd y chwedegau/dechrau'r saithdegau, mae'r ffilm yn dilyn myfyrwyr a gweithwyr dosbarth gweithiol rhyngwladol sy'n byw yn Llundain a atebodd alwad gyfrinachol Oliver Tambo am asiantau cudd, gan ddod â gobaith i'w bobl yn Ne Affrica. Fe wnaethom lansio pecyn cymorth i arddangoswyr, yn ogystal â chyfres o asedau i gefnogi "rhyddhad y bobl" y teitl hwn lle cysylltodd cyfarwyddwr Barefoot Rascals, Gordon Main, â sefydliadau actifyddion cymunedol ac undebau llafur i sefydlu dangosiadau ledled Cymru a'r DU. Fe wnaethom wahodd cynghorydd benywaidd du gyntaf Cymru ac eiriolwr pwerus dros fenywod lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, Gaynor Legall, a'r gwneuthurwr ffilmiau dogfen arobryn, yr Athro Florence Ayisi, i siarad â Gordon am y ffilm a hanes apartheid yng Nghymru. Mae hwn ar gael fel podlediad sain, fideo holi ac ateb a chlipiau cyfryngau cymdeithasol. Gofynnon ni hefyd i Maya Pillay – actor, awdur, actifydd a chyfarwyddwr prosiect llenyddol plant cynhwysol (Books from Herbie) o Brydain/De Affrica i ysgrifennu erthygl am themâu'r ffilm.

*"Rwy'n gwerthfawrogi popeth rydych chi wedi'i wneud / yn ei wneud ar gyfer Comrade Tambo's London Recruits. Mae'r gefnogaeth gadarn ar draws gyfryngau cymdeithasol, cynhyrchu'r cynnwys gwych y llynedd a'r marchnata a'r hyrwyddo di-baid wedi bod yn anhygoel. Yn ogystal â'r holl bethau eraill nad ydw i'n gwybod amdanynt yn y cefndir."* **– y Cyfarwyddwr Gordon Main**

# Ffilmiau Allweddol a Ryddhawyd*

*Mae hyn yn cynnwys cyfnodau cynllunio a hyrwyddo yn dilyn rhyddhau'r ffilmiau, nid pob ffilm a ryddhawyd yn 2024/25.

- Chuck Chuck Baby
- Comrade Tambo's London Recruits
- Fires of the Moon/Tanau'r Lloer
- Havoc
- India's 1st Best Trans Model Agency
- Kensuke's Kingdom
- Madfabulous
- Mr Burton
- Oed Yr Addewid
- On Becoming a Guinea Fowl
- Protein
- Satu – Year of the Rabbit
- Starve Acre
- Timestalker
- The Almond and the Seahorse
- The Ballad of Wallis Island
- The Mill Killers
- The Road of Excess
- The Salt Path
- Unicorns



Delwedd: On Becoming a Guinea Fowl © Picturehouse Entertainment.

## Sbotolau: On Becoming a Guinea Fowl

Fe wnaethom gydweithio â Picturehouse i hyrwyddo ail ffilm hir Rungano Nyoni a enillodd BIFA – drama gymhellol am gymuned a chwaeroliaeth. Roedd y gefnogaeth yn cynnwys pecyn cymorth a phodlediad sain, fideo sesiwn holi ac ateb a chlipiau cyfryngau cymdeithasol o drafodaeth ar ffilm Gymreig Ddu, rhwng y gwneuthurwr ffilmiau dogfen Liana Stewart a'r rhaglennydd/curadur Yvonne Connikie. Gofynnon ni i'r bardd a'r awdur ymfudwr Eric Ngalle Charles o dras Camerŵn ysgrifennu ymateb creadigol i'r ffilm, wedi'i gyd-destunoli gan Ganolfan Ffilm Cymru (CFfC) mewn sgwrs â mam Rungano, Mutale Merrill a Phrif Swyddog Gweithredol Bawso — elusen sy'n cefnogi menywod sydd wedi profi trais rhywiol.

# Yn y swyddfa docynnau

Fe wnaethom gomisiynu Delphine Lievens a Toki Allison i ysgrifennu adroddiad yn dadansoddi data 15 o ffilmiau1 gyda chysylltiadau Cymreig a ryddhawyd rhwng Mawrth 2023 ac Ebrill 2024.

- **9** ffilm wedi'i ryddhau mewn theatrau yn y DU (allan o 15)
- Ni chafodd **8** (allan o 15) ffilm unrhyw ryddhad mewn theatrau na 'HE' y tu allan i'r DU
- Fe wnaeth **1** ffilm ennill dros £1m yn swyddfa docynnau'r DU, ac fe enillodd 1 ffilm dros £100,000 yn y swyddfa docynnau. Fe wnaeth y 7 ffilm arall ennill llai na £100,000.
- **0%** o gyfarwyddwyr lleiafrifol
- **8%** o gynhyrchwyr lleiafrifol
- **0%** o awduron lleiafrifol
- **20%** o brif actorion lleiafrifol
- **18%** o gyfarwyddwyr benywaidd, 24% o gynhyrchwyr benywaidd, 24% o awduron benywaidd, 45% o brif actorion benywaidd
- **0** ffilm ddwyieithog
- **0** ffilm Gymraeg ei hiaith

## Sbotolau: Sianeli GyNg

**Fe wnaethom ehangu ein sianeli eleni i godi ymwybyddiaeth o ffilmiau Cymreig ymhlith cynulleidfaoedd a diwydiant. Yn ogystal â phodlediad GyNg, gallwch nawr ddod o hyd i ni ar Instagram, TikTok, Facebook, YouTube a Letterboxd, lle rydym yn rhannu pob math o ddiweddariadau o newyddion am ffilmio yng Nghymru, i bryd fydd ffilmiau'n cael eu caffael gan ddosbarthwyr. Rydym hefyd yn defnyddio hwn fel gofod i hyrwyddo dangosiadau mewn lleoliadau yng Nghymru gan ddefnyddio clipiau o'n cyfweliadau talent.**



Delwedd: Made In Wales Podcast: Gordon Main, Gaynor Legall & Prof. Florence Ayisi discuss 'Comrade Tambo's London Recruits'

# Dyddiau Rhagddangos

1 digwyddiad wyneb yn wyneb yng Nghanolfan y Celfyddydau Chapter

Mynychodd 27 o raglenwyr o 11 canolfan

Dangoswyd 4 ffilm hir

Dangoswyd 5 ffilm fer / clipiau

"Doeddwn i ddim yn disgwyl hyn. Ffilm ddiddorol iawn. Wedi'i chreu, ei hysgrifennu a'i chyfarwyddo'n dda. Os gallaf ddod o hyd i ffordd/thema/tymor, byddwn yn bendant yn ei dangos" - Rhaglennydd





## Sbotolau: Oed Yr Addewid (Do Not Go Gentle)

**Fe weithiodd CFfC gydag Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru (ASSLlGC) i greu sgan newydd o'r ffilm Gymraeg, wleidyddol berthnasol hon o 2000, a enillodd BAFTA. Fe'i hail-ryddwyd mewn sinemâu o fis Mawrth 2025 ymlaen gydag isdeitlau disgrifiadol yn Gymraeg a Saesneg. Yn ogystal â phecyn cymorth gan ASSLlGC, fe wnaethom gomisiynu erthygl ysgrifenedig 'Ynglŷn â Gwleidyddiaeth Dosbarth Gofal yng Nghymru: Do Not Go Gentle' gan yr awdur Diffwys Criafol, golygwyd trelar newydd gan Tom Betts a rhyddhaom ddatganiad i'r wasg pwrpasol, gan sicrhau sylw teilwng ar draws sawl ffynhonnell, ochr yn ochr â hyrwyddo wedi'i dargedu i gefnogi archebion o'r ffilm.**

*"Pan oeddwn yn yr ysgol uwchradd ym Motwnnog cefais weld copi VHS o Oed yr Addewid ar un o'r setiau teledu hynny ar olwynion, ac fe greodd argraff ddofn arnaf am wahanol resymau. Dyma ffilm sy'n dweud rhywbeth, gyda maniffesto clir a pherfformiadau cryf a oedd nid yn unig yn y Gymraeg ond yn Gymraeg Llŷn, y Gymraeg roeddwn i'n ei chlywed ac yn ei siarad, ac a oedd wedi'i gwreiddio mewn ardaloedd a oedd mor gyfarwydd i mi. Diolch am y cyfle i'w gweld eto."*

***– Aelod o'r Gynulleidfa, Galeri Caernarfon***

## Talent Gymreig

**Fe wnaethom gefnogi 110 o wneuthurwyr ffilmiau (62 yn newydd i'r prosiect) trwy hyrwyddo eu ffilmiau, creu asedau i ychwanegu gwerth at y ffilmiau roeddent yn eu rhyddhau a chynghori ar strategaethau dosbarthu.**

# Golygyddol




**Fe wnaethon ni barhau i gydweithio â Buzz Magazine i greu darnau golygyddol a oedd yn cynnig safbwynt gwahanol ar ffilmiau newydd, gan awduron â phrofiad byw. Roedd hyn hefyd yn ein galluogi i ychwanegu at ymgyrch ganolog y ffilm, gan godi ymwybyddiaeth o gysylltiadau Cymreig nad ydynt fel arall yn cael eu trafod yn y wasg a chysylltu darllenwyr â lleoliadau lle gallant archebu tocynnau. Fe wnaethom hefyd ryddhau'r darn Ffilmiau Cymreig i'w Gwylio yn 2025.**

Delwedd: Buzz Magazine, Marwth 2025, Mr Burton
© Severn Screen / Icon Film Distribution.

## Sbotolau: Satu - Year of the Rabbit

Fe wnaethom gefnogi Sandwich Club Productions a'r Cyfarwyddwr a anwyd ym Mhowys, Joshua Trigg, gyda chynllun hunan-ddosbarthu ar gyfer y ffilm hir gyntaf hon. Mae'r ffilm yn cludo cynulleidfaoedd i Laos wrth iddynt ddilyn dau blentyn ar daith syfrdanol i ddod o hyd i'w teuluoedd, eu cyfeillgarwch a harddwch bywyd bob dydd. Yn ogystal â phecyn cefnogi, fe wnaethom greu set o asedau, gan gynnwys podlediad sain, cyfweliad fideo a chlipiau ar gyfer cyfryngau cymdeithasol o drafodaeth rhwng Trigg a'r cyfwelydd, gwneuthurwr ffilmiau ac aelod o Academi Ffilm BFI+ Ash Kriengsak.




Delwedd: Satu Year of the Rabbit (© Sandwich Club Productions), India's 1st Best Trans Model Agency (© Spring Films)

## Sbotolau: India's 1st Best Trans Model Agency

Wedi'i ffilmio dros gyfnod o saith mlynedd, fe wnaeth y cyfarwyddwr o Gymru, Ila Mehrotra, gofnodi taith ryfeddol Rudrani Chhetri a'i ffrindiau, sy'n rhan o boblogaeth Hijra drawsryweddol Delhi. Yn ystod wythnos ymwybyddiaeth trawsryweddol, fe wnaethom hyrwyddo'r ffilm trwy gasgliad o asedau gan gynnwys pecyn cefnogi, erthygl gan yr awdur, perfformiwr a threfnydd cymunedol Pacistanaidd Aiman Rahim ar themâu'r ffilm a chyfweliad â Mehrotra, gan edrych ar brofiadau traws a sut maen nhw'n croestorri â Hindŵaeth a diwylliant Indiaidd. Fe'i gwnaed ar gael i arddangoswyr ar ffurf podlediad sain a sesiwn holi ac ateb byr, i'w ddefnyddio yn y sinema ac ar-lein, yn ogystal â chlipiau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer marchnata.

# Beth sydd nesaf i

# Gwnaethpwyd yng Nghymru?

- Mae calendr 2025/26 yn edrych yr un mor llawn gydag o leiaf 20 o ffilmiau gyda chysylltiadau Cymreig (yr ydym yn gwybod amdanynt!) y disgwylir iddynt gael eu rhyddhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Rydym yn brysur yn gweithio ar asedau ar gyfer y ffilmiau mawr mewn partneriaeth â'r dosbarthwyr – o gyfryngau cymdeithasol i becynnau cymorth i arddangoswyr
- Byddwn yn parhau i gydweithio â chylchgrawn Buzz i gomisiynu erthyglau, cyflwyno ffilmiau Cymreig a hyrwyddo awduron ffilmiau newydd
- Byddwn yn comisiynu ymchwil i ryddhau ffilmiau 2024/25, i archwilio perfformiad y ffilmiau yn y swyddfa docynnau
- Rydyn ni'n gwneud cynlluniau ar gyfer Diwrnod Rhagolwg mewn canolfan

## Ffilmiau a ryddhawyd 2025/26:

- **Mr Burton** (4 Ebrill
- **The Mill Killers** (gynt yn Scopophobia) (21Ebrill)
- **Havoc** (25 Ebrill
- **Hallow Road** (16 Mai)
- **The Ballad of Wallis Island** (30 Mai)
- **The Salt Path** (30 Mai)
- **Protein** (13 Mehefin)
- **Brides** (I'w gadarnhau)
- **The Road of Excess** (I'w gadarnhau)
- **Madfabulous** (I'w gadarnhau)
- **Still Pushing Pineapples** (I'w gadarnhau)
- **Let's Love** (I'w gadarnhau)
- **Fires of the Moon/Tanau'r Lloer** (I'w gadarnhau)
- **The Man in My Basement** (I'w gadarnhau)
- **The Scurry** (I'w gadarnhau)
- **Uncle** (I'w gadarnhau)
- **H is for Hawk** (I'w gadarnhau)
- **Mission** (I'w gadarnhau)
- **Out There** (I'w gadarnhau)
- **My Extinction** (I'w gadarnhau)
- **Effie** (I'w gadarnhau)



Delweddau: Ballad of Wallis Island (© Universal), Salt Path (© BlackBear, Still Pushing Pineapples (©Labor of Love Films), Protein (© Broadside Films), Brides (© ie ie Productions.), Madfabulous (@ Mad as Birds)

# Cysylltwch â Ni

**Hana Lewis**
Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru
02920 353 740
hana@filmhubwales.org

**Lisa Nesbitt**
Swyddog Cynorthwyo Aelodau
02920 311 067
lisa@filmhubwales.org

**Jade Atkinson**
Cydlynydd Marchnata Aelodau
02920 311 057
jade@filmhubwales.org



Delwedd: Timestalker © Western Edge Pictures